# Hybu pecynnau gofal neu gymorth drwy weithio mewn partneriaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn amlinellu'r gofynion wrth gyfrannu at weithio mewn partneriaeth i gynorthwyo unigolion i gael gafael ar becynnau gofal neu gymorth personol. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i asesu eu dewisiadau a'u hanghenion, ac yna gweithio gyda'i gilydd i gynllunio, gweithredu a gwerthuso pecynnau gofal neu gymorth personol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill yn y prosesau asesu, cynllunio a gweithredu ar gyfer pecynnau gofal neu gymorth i unigolion
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a fydd yn mynd i'r afael â dewisiadau ac anghenion ar gyfer pecynnau gofal neu gymorth
3. grymuso a chynorthwyo unigolion ac eraill i adolygu, adnabod a dethol dewisiadau o'r opsiynau sydd ar gael
4. gweithio ag unigolion ac eraill i gael gafael ar becynnau gofal neu gymorth y cytunwyd arnynt, a'u defnyddio
5. cyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau yn y broses asesu, cynllunio a gweithredu
6. grymuso a chynorthwyo unigolion ac eraill yn y broses asesu, cynllunio a gweithredu
7. annog unigolion ac eraill i gymryd rhan mewn adolygiadau i roi adborth ar sut mae pecynnau gofal neu gymorth wedi cwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion
8. rhoi adborth ar sut mae pecynnau gofal neu gymorth wedi cwrdd â dewisiadau ac anghenion unigolion
9. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau i becynnau gofal neu gymorth
10. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu pecynnau gofal neu gymorth drwy weithio mewn partneriaeth
11. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu pecynnau gofal neu gymorth drwy weithio mewn partneriaeth

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y mathau o wasanaethau sydd ar gael i ddarparu pecynnau gofal neu gymorth i unigolion
2. sut mae cael gafael ar wybodaeth am becynnau gofal neu gymorth, a darparu'r wybodaeth honno
3. sut mae adolygu a gwerthuso gwybodaeth am becynnau gofal neu gymorth
4. sut gall pecynnau gofal neu gymorth ddylanwadu ar lesiant unigolion ac eraill
5. rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill yn y prosesau asesu, cynllunio a gweithredu ar gyfer pecynnau gofal neu gymorth i unigolion
6. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gynorthwyo unigolion i gael gafael ar becynnau gofal neu gymorth
7. sut mae asesu, cynllunio a gweithredu pecynnau gofal neu gymorth personol
8. egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ag eraill
9. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth asesu, cynllunio a gweithredu pecynnau gofal neu gymorth ag unigolion
10. gofynion eich gweithle mewn perthynas â systemau cyfathrebu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth
11. effaith strwythur, diwylliant, cefndir a phrosesau'r gweithle ar weithio mewn partneriaeth
12. sut mae ymateb i wrthdaro buddiannau, materion a phryderon wrth weithio mewn partneriaeth
13. sut mae cyfrannu at adolygiadau o becynnau gofal neu gymorth, a pham eu bod yn bwysig
14. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion
15. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar becynnau gofal neu gymorth
16. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth weithio mewn partneriaeth
17. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu pecynnau gofal neu gymorth drwy weithio mewn partneriaeth
18. theorïau sy'n berthnasol i hybu pecynnau gofal neu gymorth drwy weithio mewn partneriaeth
19. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu pecynnau gofal neu gymorth drwy weithio mewn

partneriaeth

20. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu pecynnau gofal neu gymorth drwy weithio mewn partneriaeth

21. sut y gall eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth hybu pecynnau gofal neu gymorth drwy weithio mewn partneriaeth, a sut i fynd i'r afael â hyn

22. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu pecynnau gofal neu gymorth drwy weithio mewn partneriaeth

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD330

Hybu pecynnau gofal neu gymorth drwy weithio mewn partneriaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD330 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Pecynnau Gofal, Cymorth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |